PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Cyfieithu Cyfrifol

Jones, Anwen

Published in:
Llên Cymru

DOI:
10.16922/lc.41.6

Publication date:
2018

Citation for published version (APA):
Jones, A. (2018). Cyfieithu Cyfrifol: Salvador Esprui, Primera Història d'Esther ac Esther, Saunders Lewis. *Llên Cymru*, *41*(1), 147- 163. https://doi.org/10.16922/lc.41.6

Document License
CC BY-NC-ND

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 05. Oct. 2024

10.16922/lc.41.6

Cyfieithu cyfrifol: Salvador Esprui, *Primera Història d'Esther* ac *Esther*, Saunders Lewis

Yn 2016, cyhoeddwyd rhifyn arbennig o'r cyfnodolyn *Translation Studies*, yn canolbwyntio ar hanes, theori a methodolegau cyfieithu yng Nghymru. Un o brif amcanion y rhifyn yw cwestiynu'r canfyddiad o gyfieithu fel methodoleg gynrychioliadol sy'n trosglwyddo gwybodaeth rhwng cyfryngau a rhwng cynulleidfaoedd. Yn hytrach, cyflwynir gweledigaeth o gyfieithu fel adnodd creadigol, trawsddisgyblaethol a all sbarduno ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r profiad dynol. Yn eu cyflwyniad i'r rhifyn, gresyna'r golygyddion at ddau beth. Yn gyntaf, cyfyngderau'r drafodaeth ar hanes, rôl a dibenion cyfieithu yng Nghymru; yn ail, prinder ymchwil ar gyfieithu o berspectif diwylliannol, hanesyddol neu gysyniadol. Mewn ymateb i'r cyfryw wendidau, argymhellir proses o glosio cysyniadol rhwng dau faes annibynnol, astudiaethau diwylliannol ac astudiaethau cyfieithu:

> If it could be argued that Welsh cultural studies is yet to effect its 'translational turn' (Bachmann-Medick 2009), then a similar remark could also be made of the field of translation studies itself, which, in spite of its long-standing focus on questions concerning minority identities [. . .] has rarely animated work on the Welsh context.
>
> [. . .] The research questions [. . .] that follow are presented as a handful of illustrative examples of the productive interplay – in both directions – between translation studies and Welsh studies.[1]

Mae'r erthygl hon yn ymgais i ddatblygu'r llond dwrn hwnnw o enghreifftiau darluniadol er mwyn dwysáu'r cyfnewid rhwng astudiaethau cyfieithu, ar y naill law, ac astudiaethau diwylliannol Cymraeg a Chymreig, ar y llaw arall. Fy amcan yw darganfod a oes modd i ddisgwrs a wreiddir ym maes astudiaethau cyfieithu ddwyn ffrwyth annisgwyl trwy ddatgelu arwyddocâd testun unigol yng nghyd-destun gweledigaeth corpws llenyddol, penodol. Yr awdur o dan sylw yw Saunders Lewis a pherthynas ei ddrama *Esther*

â chyfieithiad Catalaneg cymharol o'r un hanes beiblaidd fydd canolbwynt yr astudiaeth hon.

A dweud y gwir, nid gweledigaeth newydd mo'r drafodaeth a gyflwynir yn y rhifyn arbennig uchod ond yn hytrach ymgais i gyfeirio a chymhwyso trafodaeth arloesol beirniaid megis Doris Bachmann-Medick am y 'tro' neu'r *turn* ym maes astudiaethau cyfieithu, i Gymru. Nid oes dwywaith nad yw ei gweledigaeth yn arloesol ond fe'i rhagflaenwyd gan ddatblygiadau a weddnewidiodd y berthynas rhwng astudiaethau cyfieithu ac astudiaethau diwylliannol yn nawdegau'r ugeinfed ganrif. Mae Doris Bachman-Medick yn cydnabod i feirniaid megis Lawrence Venuti, Michael Cronin a Susan Bassnett fraenaru'r tir ond dadleua na fu eu dylanwad yn ddigon i gyflawni tro llawn:

> Certainly it is not enough to disengage the category of translation from a linguistic and textual paradigm and locate it, as a cultural practice, in the sphere of social action where it plays an ever more vital role for a world of mutual dependences and networks.[2]

Nid digon chwaith ddatblygiadau troad y mileniwm o dan ddylanwad beirniaid megis Jürgen Habermas, Mona Baker a Joachim Renn sy'n synied am gyfieithu fel methodoleg ddadansoddiadol ag iddi ddibenion ymarferol. Yn y bôn ac ar ei symlaf, geilw Doris Bachmann-Medick am naid gysyniadol bellach er mwyn cyfnewid y syniad o gyfieithu fel technoleg arbenigol, hunangynhaliol am weledigaeth ohono fel cyfrwng gweithredol, trawsddisgyblaethol. Ei delfryd hi yw cyfieithu heb ffiniau: 'Translation [. . .] that in no way remains restricted to a particular object of investigation, but moves right across the disciplines as a new means of knowledge.'[3]

Er mwyn ymateb yn greadigol i her Doris Bachmann-Medick, bydd yr erthygl hon yn archwilio cyfraniad cyfieithu i ddatblygiad y fethodoleg gelfyddydol a saerniwyd gan Saunders Lewis i fynegi gweledigaeth am genedligrwydd Cymraeg yng nghyd-destun Ewrop hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Byddaf yn dadlau bod *Esther* yn cyflwyno egin-ddealltwriaeth o gyfieithu fel dull trawsddisgyblaethol o gynhyrchu a chyfryngu gwybodaeth newydd neu ddull newydd o ganfod neu brofi'r berthynas rhwng pethau. Os gellir dehongli *Esther* fel cyfraniad i feithrin a datblygu, 'a translational

cultural practice [. . .] in no way [. . .] restricted to binary relationships between national languages, national literatures, or national cultures',[4] yna gall hefyd fynd â ni gam ymhellach tuag at weledigaeth Michael Cronin o *microcosmopolitanism*: 'a conceptual framework for a way of thinking about the cultures of countries like Wales and Ireland that is potentially of interest [. . .] to those who throng [. . .] the big wide road of contemporary globalization theory'.[5]

Yn ei gyfrol arloesol, *Williams Pantycelyn* (1927), cawn sylwadau union-gyrchol ar gyfieithu gan Saunders Lewis wrth iddo fyfyrio ar gyfieithu *The Pilgrim's Progress* John Bunyan i'r Gymraeg, gan ddadlau na wyddai 'am lyfr mwy anghymreig ei ysbryd'.[6] Ymddengys ei fod yn gofidio am ddylanwad y gyfrol â'i 'modd unig, ymneilltuol o synio am fywyd' ar feddwl a dychymyg Cymry, megis Pantycelyn, a fagwyd mewn 'gwlad a gollasai ei threfn gymdeithasol a'i thraddodiadau'.[7] Cyfyd ei sylwadau gwestiynau crafog ynghylch moeseg cyfieithu yng nghyd-destun ymgyrchoedd cenedlaethol, cynhaliol sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw moesau cenedlaethol o bob math, gan gynnwys iaith a diwylliant. Yn ddiau, cafodd cyfieithu, yn enwedig er cyhoeddi Beibl William Morgan yn 1588, 'a profoundly invigorating effect on Welsh culture'.[8] Mae gofid Saunders Lewis ynghylch cyfieithu *Taith y Pererin* yn gydnabyddiaeth o ddyfnder y cyfryw ddylanwad. Yn yr ysgrif hon, archwilir ei bryderon yng nghyd-destun trafodaeth ganolog ym maes astudiaethau cyfieithu am gartrefoli (*domestication*, sef addasu'r testun yn ôl amodau diwylliannol yr iaith darged) ac estronoli (*foreignisation*, cadw elfennau diwylliannol dieithr y testun gwreiddiol). Byddaf hefyd yn gofyn a oes gan astudiaethau cyfieithu – a'r ffocws arbennig ar gyfieithu a amlinellwyd mewn modd mor wyliadwrus gan Saunders Lewis ei hun – gyfraniad i'w wneud wrth ddehongli rôl *Esther* yng nghorpws creadigol dramodydd mwyaf yr iaith Gymraeg.

Wrth drafod datblygiad gweledigaeth ddramataidd Saunders Lewis, dadleua Emyr Humphreys fod *Esther* yn rhan o driptych sy'n cynnal trafodaeth gelfyddydol estynedig am 'argyfyngau arweinydd a pherthynas ei gredoau a'i genhadaeth yng nghyd-destun hanes cythryblus Ewrop gyfoes'.[9] Dyma'r drafodaeth sy'n cyplysu *Gymerwch chi Sigaret* (1956) a *Brad* (1958) yng ngolwg Humphreys, tra bod *Esther* (1960) yn dod â'r cyfnod penodol hwn o ddwyster creadigol i uchafbwynt. Ar y llaw arall,

fe hawlia Dafydd Glyn Jones arwyddocâd arbennig i'r ddrama ar daflwybr arall, sef yn rhan o'r 'symud graddol, petrus tuag at [. . .] [d]rasiedi ryddiaith yn darlunio Cymru gyfoes yn uniongyrchol' rhwng *Siwan* (1954) a *Cymru Fydd* (1967).[10] Wrth rheswm, nid yw honiad y naill feirniad yn nacáu dehongliad y llall ac nis gosodir hwy mewn gwrthgyferbyniad â'i gilydd gan Ioan Williams yn ei ail gyfrol ar *Ddramâu Saunders Lewis* nac ychwaith gennyf innau. Yn hytrach, mae sylwadau Dafydd Glyn Jones ac Emyr Humphreys yn cyfeirio at wirionedd cyffredinol, sef ei bod hi'n fuddiol os nad yn anorfod trafod *Esther* yng nghyd-destun ehangach gweithiau dramataidd Saunders Lewis at ei gilydd ac mai ffocws penodol y cyd-destun hwnnw yw Cymru yn ei pherthynas ag Ewrop fodern.

Er gwaetha'r tir cyffredin rhwng deongliadau Dafydd Glyn Jones ac Emyr Humphreys, ni cheir yn *Esther* fwy na chyfeiriadaeth at naill ai sefyllfa'r Gymru neu'r Ewrop gyfoes. Yn wir, â Emyr Humphreys ymlaen i ddatgan arwahanrwydd y ddrama yng nghyd-destun dramâu eraill Saunders Lewis a hynny ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, am iddo gymryd deunydd chwedlonol yn hytrach na stori wreiddiol yn sail i'w ddrama ac am iddo wedyn gymryd agwedd anhanesyddol tuag at y cyfryw ddeunydd. Wrth bwyso a mesur ymatebion Emyr Humphreys a Dafydd Glyn Jones, ymysg eraill, i *Esther*, dadleua Ioan Williams mai prif fyrdwn *Esther* yw cyfleu'r syniad bod 'amgyffred beth yw hanfod cariad o reidrwydd yn symud merch neu ŵr y tu hwnt i ystyriaethau dynol. Y mae amgyffred hanfod cariad yn eich arwain i adnabod yr hyn yw Duw a'i berthynas â dyn.'[11] Efallai bod awgrym Emyr Humphreys mai Saunders Lewis ei hun oedd awdur y datganiad ar siaced lwch argrafffiad 1960 a hawliai nad 'drama hanes mohoni o gwbl ond muthos yn trafod problem o bwys parhaol heddiw [. . .] bod Iddewiaeth yn rhan hanfodol o Gristnogaeth, er nad yw pob Iddew yn sant', yn cyfiawnhau i ni gymhathu barn y tri beirniad mewn modd eangfrydig.[12] Gellid gofyn a oes yma gyfeiriad at sefyllfa Cymru fel cenedl leiafrifol o dan ormes cymydog mwy o faint, mwy pwerus. A yw Cymru yn rhan hanfodol o orffennol a dyfodol Prydain ac Ewrop er nad yw pob Cymro'n sant?! Ai dyma weledigaeth Saunders Lewis am ddyfodol ei genedl, megis Esther, yn ei harddwch digymar yn erfyn ar ei chymar iddo estyn ei deyrnwialen a'i hachub rhag ei thynged a'i thrallod? Ond gellid hefyd ofyn a yw pob gweledigeth genedl-ganolog

wedi ei fframio gan ystyriaethau mwy, nid ar gefnlen cyfandirol yn unig, ond yn hytrach yng nghyd-destun macrocosmopolitan, oesol y berthynas rhwng dyn a Duw am mai '[t]rwom ni mae O'n gweithredu'.[13]

Yn ddiddorol, addaswyd hanes beiblaidd Esther i'r llwyfan gan ddramodydd o ddiwylliant lleiafrifol arall, sef yr awdur Catalanaidd, Salvador Esprui, yn 1948. Yn ei dro, fe gyfieithwyd gwaith gwreiddiol Esprui, *Primera Història d'Esther*, i'r Saesneg gan Philip Polack yn 1989. Wrth fwrw ati i gyfieithu'r ddrama i'r Saesneg, mae Polack yn ad-leoli'r digwydd i Gymru er mwyn cyflwyno 'important considerations concerning minority communities' i gyd-destun Prydeinig.[14] Tybed nad yw'r dull hwn o ail-ysgrifennu neu ail-becynnu yn cynnig model o gyfieithu llesol yn ôl ffon fesur Bunyanaidd Saunders Lewis. Gellid dadlau mai dyma'r union fath o gyfieithu adferol a ddylai gael ei hybu gan genedlaetholwyr diwylliannol cyfrifol. Sut mae esbonio, felly, mai peth cwbl wahanol a wnaeth Saunders Lewis ei hun wrth baratoi ei fersiwn Cymraeg yntau o hanes Esther?

Wrth drin gwaith William Williams Pantycelyn, *Golwg ar Deyrnas Crist*, dadleua Saunders Lewis fod nam ar weledigaeth a gwaith yr emynydd mawr.[15] Yr hyn sydd ganddo dan sylw yw'r modd y mae estheteg William Williams wedi ei dieithrio a'i hysgaru oddi wrth y traddodiad Cymraeg a'i rhagflaenodd. Adnabu Saunders Lewis draddodiad sefydlog a di-dor rhwng cyfnod Llywarch Hen hyd at deyrnasiad Elisabeth, pan nodweddwyd llenyddiaeth Gymraeg gan weledigaeth gyffredin o 'unoliaeth cymdeithas ac athroniaeth gyffredin am bethau pwysig bywyd'.[16] Mae Saunders Lewis yn argyhoeddiedig mai mawredd celfyddyd Cymraeg y cyfnod hwnnw oedd argyhoeddiad o natur gymdeithasol barddoniaeth ac ymroddiad llawen i genhadaeth gelfyddydol a adwaenai mai diddanwch trwy foliant oedd prif amcan barddoniaeth. Cenfydd yng ngwaith Williams duedd cwbl wrthgyferbyniol i ganoli ar brofiad yr unigolyn, unig. Nid yw *Golwg ar Deyrnas Crist* yn mynegi ymrwymiad i gyfundrefn gymdeithasol ddelfrydol nac ychwaith yn ymroi i foli'r bywyd a'r moesau a ymgasglai o gwmpas yr unigolyn. 'Bardd unigedd yw Williams,' chwedl Saunders Lewis, bardd a ganai â 'dull ffoedig, ymneilltuol o feddwl' na ddarganfu erioed 'y syniad Cymreig am gymdeithas ac am natur gymdeithasol barddoniaeth'.[17]

Beth bynnag ein barn am asesiad Saunders Lewis o gelfyddyd William Williams,[18] yr hyn sydd o ddiddordeb penodol yma yw'r modd y mae'n taflu

peth o'r cyfrifoldeb am ei weledigaeth ddiffygiol ar ei gyswllt â chyfieithiad i'r Gymraeg o waith John Bunyan, *Taith y Pererin*. Er gwaethaf natur anghymreig y gwaith, chwedl Saunders Lewis, fe'i troswyd i'r Gymraeg ac mae'n amlwg ei fod yn ystyried ei effaith a'i ddylanwad ar ddychymyg Cymru, ac ar feddwl William Williams o Bantycelyn, yntau, yn arwyddocaol o ddinistriol. Mynega Saunders Lewis syniadau tebyg yng nghyddestun ei feirniadaeth o agwedd y Cymry at eu hetifeddiaeth lenyddol ar ei ffurf wreiddiol. Yng nghyd-destun penodol astudio barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, dadleua na fu hyd hynny ymgais i esbonio'r 'Esthetig Cymreig, y peth sylfaenol yn hanes ein llenyddiaeth.'[19] Yn hytrach, gresyna i'r Cymry fodloni ar wisgo hen ffurfiau Cymreig mewn dillad cyfoes wedi eu benthyg, gan amlaf, o Loegr. A dyna, meddai, sy'n esbonio 'bychaned yw rhan llenyddiaeth Gymraeg yn natblygiad meddwl Cymru heddiw': 'Y mae'n colled ni'n fawr o'r herwydd. Ymhob cylch, mewn crefydd, mewn gwleidyddiaeth, mewn economeg, mewn athroniaeth, gellir dangos diffyg unrhyw feddwl Cymreig i'n harwain ar lwybr a fyddai'n naturiol i'n cenedl, ac felly'n lles iddi.'[20] Er iddo ein cysuro nad oes ond pwysigrwydd ymylol i'r dylanwadau a fu ar William Williams am mai bardd profiad ydoedd, mae'r hyn a ensynia am ddylanwad dinistriol cyfieithu *The Pilgrim's Progress* i'r Gymraeg yn codi bwgan am gyfieithu fel gweithred ag iddi oblygiadau moesol pellgyrhaeddol, a hynny yng nghyd-destun y cysyniad o genedl, yn benodol. Tybed a oes modd i drafodaeth o *Esther* Saunders Lewis yng nghyd-destun cymharol cyfieithiad Polack o *Primera Història d'Esther* gan Espriu gynnig ateb posibl i ddau gwestiwn sy'n codi o ymateb Saunders Lewis i gyfieithu gwaith Bunyan. Ar un llaw, i ba raddau y mae'r cysyniad o gyfieithu cyfrifol ynghlwm â'r syniad o gyfieithu perthnasol? Ar y llaw arall, i ba raddau y gall, ac yn wir, y dylai, unrhyw fath o gyfieithu fod yn gyfrifol?

Yn ei chyflwyniad i'w llyfr golygedig *Critical Readings in Translation Studies* (2009), dadleua Mona Baker ei bod yn nodi man cychwyn newydd yn hanes a tharddiad astudiaethau cyfieithu. Byrdwn ei chyfrol, meddai, yw troi ymaith rhag tacsonomïau, gan ddarbwyllo ei darllenwyr bod cyfieithu'n weithred rhy gymhleth a deinamig i'w hamgyffred fel dewis cyson rhwng dau neu fwy o strategaethau neu opsiynau annibynnol a chyflawn. 'Translation studies', meddai 'has come of age'.[21] Un agwedd hanfodol ar

y cyfryw aeddfedrwydd yw'r ewyllys i fynd i'r afael â chwestiynau heriol ym maes moeseg cyfieithu: 'the moral dilemmas involved in attempting to 'do right' by various parties in the interaction: the source author and culture, the target reader and culture, various parties in an interpreted encounter, or a particular political or social cause'.[22] Erbyn 2011, ychydig wedi cyhoeddi cyfrol Baker, trafoda Cristina Marinetti'r 'cultural turn' (neu'r hanner tro, chwedl Bachmann-Medick), sef y 'theoretical and cultural shift in Translation Studies that gained recognition in the early nineties', mewn perthynas benodol â gwaith Susan Bassnett, André Lefevere ac, yn ddiweddarach, Lawrence Venuti.[23] Diffinia Cristina Marinetti dueddiad i droi rhag positifistiaeth tuag at berthynoliaeth ym maes cyfieithu. Noda mai un o gonglfeini'r fethodoleg hon yw beirniadaeth o'r dull ieithyddol a'r cysyniad o gyfartaledd fel man cychwyn ar gyfer theori cyfieithu. Â yn ei blaen i esbonio bod Susan Bassnett ac André Lefevere yn gweld cyfieithu fel gweithgaredd hanfodol gyd-destunol ac mai un o agweddau mwyaf amlwg y cyd-destun perthnasol yw diwylliant. O newid y ffocws o iaith i ddiwylliant, roedd hi bellach yn bosibl defnyddio cysyniadau athronyddol pwysig, megis syniad Foucault am bŵer a disgwrs wrth drin a thrafod cyfieithu. Erbyn hyn, meddai Marinetti:

> the questions have changed, the object of study has been redefined, what is studied is the text, embedded within its network of both source and target cultural signs and in this way Translation Studies has been able to utilize the linguistic approach and move out beyond it.[24]

Mae erthygl Marinetti yn defnyddio, ac yn derfynol yn amddiffyn, y 'tro' hwn ym maes astudiaethu cyfieithu ar sail y ffaith ei fod yn galluogi dehongliad o gyfieithu fel gweithred o ymarfer pŵer ac felly yn ei wneud yn fythol berthnasol i'r drafodaeth 'of competing cultural discourses within and across languages and national cultures'.[25]

Mewn erthygl gan David Bleich a gyhoeddwyd flwyddyn cyn cyfrol Mona Baker, gosodir cyd-destun cyfoes sy'n amlygu'r angen am y gwaith a gwblhawyd gan Baker ac a ddadansoddwyd gan Marinetti.[26] Yn bwysicach fyth, mae'r erthygl hefyd yn awgrymu ffordd o symud y tu hwnt

i ddisgyrsiau trefedigaethol sy'n dueddol o wadu'r 'mutuality of language and literature mixing, the phenomena actually shown in a wide variety of texts'.[27] Beirniada Bleich fethiant sefydliadau Addysg Uwch i amddiffyn theorïau ac arferion cyfieithu yn wyneb y grymoedd economaidd a ddaeth yn sgil globaleiddio. Dywed ei bod bellach yn arfer ymysg ysgolheigion ym maes cyfieithu llenyddol i neilltuo dwy rôl wrthgyferbyniol i gyfieithu. Yn gyntaf, cyflwyno darlleniadau neu ddeongliadau newydd, yn ail, dod â thestunau adnabyddus i grwpiau ieithyddol newydd. Cyfeiria at argyhoeddiad Sandra Bermann nad oes bellach genedl-wladwriaethau ond yn hytrach, 'global sites with multiplicities of languages and cultures'.[28] Yn eironig ddigon, meddai, rhaid i economwyr y prosiect byd eang wrth gyfieithu. Ac eto, er mwyn cynnal y rhithweledigaeth o undod sy'n sail i'w gweledigaeth o'r byd, rhaid iddynt hefyd gadw'r broses gyfieithu yn anweledig. Y mae cydnabod lluosogedd ieithyddol, meddai Bleich, yn rhwym o danseilio egwyddorion sylfaenol y prosiect byd eang a thaflu rhwystrau ymarferol, anorchfygol i'w lwybr.

Ymateb Bleich i ddylanwad gormesol ac unffurf y prosiect byd eang yw troi at Jacques Derrida a chanfod lloches yn ei athronyddiaeth ynghylch gwydnwch neu hyblygrwydd iaith yn wyneb hegemonïau gwleidyddol a chymdeithasol. Dadleua fod Derrida yn cyflwyno gweledigaeth o gywerthedd seico-gymdeithasol pob iaith, law yn llaw â chydnabyddiaeth o'u gwahaniaethau annileadwy. Cyflwyna Bleich hanfodion y cyfryw weledigaeth fel hyn: 'regardless of political and social hegemonies, processes of language interaction among living people imply a principle of the ineradicable psychosocial equivalence of languages to one another as combined with their ineradicable differences'.[29] Yn y bôn, mae Derrida yn canoli ar y broses o gymysgu a benthyg ieithyddol cyson mewn gofodau hanesyddol a chymdeithasol sy'n meddu ar hunaniaethau unigol neu luosog cydnabyddedig, gofodau megis cenhedloedd. Eto, mae Bleich yn cydnabod y gellid gweld 'an annoying sense of contradiction' yn ysgrifennu Derrida wrth iddo gyflwyno cysyniadau ymddangosiadol gwrthgyferbyniol megis 'We only ever speak one language', ochr yn ochr â'r haeriad, 'We never speak only one language', neu'r honiad 'nothing is untranslatable but *in another sense*, everything is untranslatable'.[30] Ond amod hanfodol gweledigaeth Derrida am iaith yma yw nad oes i un iaith, nac un mynegiant

(megis y gair llafar), awdurdod a bod iaith yn gweithredu drwy ddulliau cyfieithiadwy ac anghyfieithiadwy.[31] O gymhwyso ei weledigaeth i faes cyfieithu, gellid ystyried nad sefydlu unieithedd neu gywerthedd yw priod waith cyfieithu, ac nad peth perthnasol na chyfrifol fyddai ceisio sefydlu'r naill beth neu'r llall wrth gyfieithu.

Ble ar hyd y sbectrwm hwn o theorïau ac ymarferion cyfieithu y saif gwaith Polack wrth iddo fynd i'r afael â drama Catalan Salvador Esprui, *Primera historia d'Esther*? Yng nghyd-destun cwestiynau ynglŷn â pha mor driw y gall ac y dylai cyfieithiad fod i'w ffynhonnell wreiddiol, mae hanes Esther yn fan cychwyn heriol a hynny am nad yw'n hanes sy'n cydymffurfio â'r farddoneg feiblaidd sy'n gyfrwng iddo. Cynhwysir rhai elfennau o stori Esther yn yr Hen Destament. Fe'u cydnabyddir gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig ond fe'u neilltuir i'r Apocyffra gan destunau'r Protestaniaid. Yn unol â gweledigaeth Derrida, nid yw hanes Esther yn cynnig sicrwydd 'un ffynhonnell dorfol, wreiddiol'. Nid oes posibl i ni felly gyd-destunoli'r deunydd mewn modd awdurdodol, unffurf ac y mae hynny'n arwain, yn ei dro, at ansicrwydd ynghylch sut i ddarllen yr hanes. Mae'r modd y mae Salvador Esprui yn cyflwyno neu gyfieithu'r deunydd i ni yn *Primera Historia* yn cynnal yr egwyddor o gyfathrebu cymhlethdod. Cyfunir proses o ddistyllu ieithyddol, gydag arddull grotésg, ddychanol ar gefnlen dau fyd cwbl wahanol: Shushan, y byd beiblaidd a Novareba, cyflwyniad mytholegol o amgylchfyd plentyndod y dramodydd ei hun. Ceir yma ddrama o fewn drama wrth i drigolion Novareba ymgynnull i wylio sioe bypedau sy'n darlunio cymeriadau chwedl Esther fel ymgorfforiadau grotésg o ffolineb arweinwyr unbeniaethol. Cyfeirir at gyflwr sathredig y Gatalaneg yn ystod cyfnod cythryblus ymerodraeth Franco. Yn yr un modd ag y gellid dadlau bod hanes gwreiddiol Esther yn llochesu oddi fewn i draddodiad llenyddol nad yw'n gynhenid iddo, mae drama Salvador Esprui yn eithriad yng nghyd-destun llesgedd cyffredinol drama a theatr yn y Gatalaneg ar y pryd.

Rhagflaenir cyfieithiad Polack o'r ddrama wreiddiol gan lythyr o ddiolch gan Salvador Esprui lle canmolir camp y cyfieithydd a llwyddiant ei gyfieithiad. Llwyddodd Polack i ennyn edmygedd Esprui am nad oedd wedi osgoi anawsterau'r testun nac eithrio'r un rhan o'r deunydd gwreiddiol. Fe'i llongyfarchir hefyd am nad yw ei Saesneg mor anodd ei ddarllen a'i

ddirnad â'r Gatalaneg gwreiddiol. A dweud y gwir, mae cydnabyddiaeth Salvador Esprui o rwyddineb y darllen o gymharu â iaith ddwys, esoterig y gwreiddiol yn gyfaddefiad na fu'r cyfieithydd yn driw i arddull y ffynhonnell wrth gyfieithu. Trawodd Polack ar y ddyfais o Gymreigio'r testun ('the Welshing of the setting'[32]) er mwyn adfer dwyster a chyfoeth ieithyddol y testun gwreiddiol a allai fod wedi ei golli o'i drosglwyddo i idiom Saesneg, rhwydd a llyfn. Yn ôl Antoni Turull, a gyflwynodd y cyfiethiad i'r cyhoedd mewn print yn 1989, un o'r rhesymau dros y newid lleoliad oedd 'to make clearer to the British readers or audiences the distinctiveness and richness of the Catalan culture of the original'.[33] Onid ydym felly yn ôl ar drywydd y 'tro' diwylliannol hwnnw a alluogodd canfyddiad Susan Bassnet, André Lefevere a Cristina Marinetti o gyfieithu yng nghyd-destun disgyrsiau am bŵer, 'competing cultural discourses within and across national cultures'.[34]

Y mae'r ail reswm a gynigir gan Antoni Turull i esbonio Cymreigio Philip Polack yn atgyfnerthu'r dehongliad hwn. Hawlir iddo ddefnyddio'r ad-leoliad i Gymru er mwyn crisialu'r gwahaniaeth rhwng yr iaith drechol, sef Sbaeneg, a'r iaith leiafrifol, sef y Gatalaneg. Y bwriad oedd pwysleisio arwahanrwydd y Gatalaneg, 'to show how different it is from that of the ruling power, particularly through linguistic signs – speech and names – and through some of its customs'.[35] Trwy ad-leoli'r digwydd i Gymru, cyflwynwyd cymhariaeth rhwng sefyllfa Catalunya yn Sbaen â safle Cymru o fewn fframwaith diwylliannol, gwleidyddol ac ieithyddol ehangach Prydain. Ategwyd hyn drwy gyflwyno agweddau ystrydebol ar ddiwylliant Cymru i wead y ddrama megis cyfarchiad y brenin i Haman: 'Come inside my friend, and get your strength back. And you too, gentlemen: here's a famous brown ale from the Vale of Neath, transported without regard for cost from the breweries of Evan Evans Bevan. Drink to your heart's content.'[36] Gweler hefyd yr olygfa pan heria'r Frenhines Vashti'r brenin yn wyneb ei esgymuniad ohoni:

> You won't! To Cambria I'll hie me,
> With cook and coach, and lover by me.
> We shall eat, on our way out,
> Laverbread and Teifi trout,

> Slices sweet of honeyed lamb,
> Welsh cakes with blackcurrant jam.
> And I'll enjoy my lover's charms
> In comfort at the Tawe Arms.[37]

Dull arall o atgyfnerthu cyfraniad y cyfieithiad i'r math hwn o ddisgwrs oedd cyflwyno'r ddrama yn un o ieithweddau mwyaf adnabyddus llenyddieth Saesneg Cymru, arddull y llenor adnabyddus Dylan Thomas yn *Under Milk Wood*. Cawn enghraifft drawiadol o'r arddull hon wrth i'r ddrama agor gyda datganiad y brenin, Ahasuerus:

> I'm willing to bet a chunk of the handle of this sceptre, jewels and all, not one of you could recite by heart, not even Mrs. Price's good little boy there, so fine and smart in his sailor suit, nor perhaps even Dr. Daniel himself, so you can see what a safe bet I'm making. My name, unlucky creature that I am, is Ahasuerus, a bitter sort of overblown sneeze of a name that I'm saddled with as long as I live, which Selyf has tried to deflate by the sublest subterfuges of the art of the alteration of nomenclature – but without success.[38]

A yw cyfieithiad Philip Polack felly yn gaeth i'r math o gyd-destun trefedigaethol a feirniadwyd gan David Bleich am ei fod yn cadarnhau, yn anfwriadol o bosibl, oruchafiaeth ac unfrydiaeth ieithyddol? Neu efallai bod modd dadlau bod dull Philip Polack o amneidio tuag at y gilfach ieithyddol arbennig lle nytha ieithwedd Dylan Thomas, rywle rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn mynd â ni i gyfeiriad cwbl wahanol. Deuwn, efallai, yn nes at amheuaeth a chymhlethdod gweledigaeth Jacques Derrida am natur hyblyg y troi a throsi ieithyddol hwnnw sy'n nodweddau cymdeithasau a hunaniaethau amlieithog. Wrth gloi ei gyflwyniad i'r ddrama, mae Antoni Turull yn hawlio mai drama am egwyddor sanctaidd dynoliaeth, sef cydfyw heddychlon, yw'r *Primera Historia* ac iddi apelio at Polack oherwydd 'its genuine universality of a treatment which so proudly asserts "parochial" roots'.[39] Tybed a fyddai'r math hwn o ddychweledigaeth wrth fodd Saunders Lewis o ystyried ei feirniadaeth o gyfieithu testunau anghymreig i'r Gymraeg?

O droi at addasiad Saunders ei hun o chwedl Esther efallai y cawn ateb o fath, a hynny yng nghyd-destun triniaeth Jacques Derrida o'r un ffynhonnell. Os ystyriwn y modd y trafodir darlleniad Derrida o stori Esther fel y'i dehonglir gan Jo Carruthers, ochr yn ochr ag erthygl arall gan Jacques Derrida ei hun, 'What is a "relevant" translation?', canfyddwn weledigaeth go ysgubol ynghylch cyfieithu. Mae hi'n weledigaeth sy'n cyfuno dealltwriaeth o amwysedd ac ansefydlogrwydd iaith law yn llaw â'i phenodolrwydd diamheuaeth, a hefyd yn cynnwys canfyddiad o ansicrwydd cyddestun a chyfathrebu trwy iaith:

> Derrida muddies [the] entirely sensible theory of the sociality of the sign by emphasizing that which *cannot* be manipulated or guaranteed [. . .] he points instead towards the limits of an author's manipulation of convention, and he warns that 'the writer writes in a language and in a logic whose proper system, laws, and life his discourse cannot dominate absolutely'.[40]

Yn ôl Jo Carruthers, mae darlleniad Jacques Derrida o hanes Esther yn herio gorfoledd fel y'i mynegir yng ngŵyl Iddewig Purim am ei fod yn ymroi i weledigaeth o'r ansicrwydd sydd wrth hanfod y weithred a'r arfer o ysgrifennu. I'n dibenion ni, yng nghyd-destun penodol y gweithgaredd o gyfieithu llenyddol, mae dadl Derrida yn ei erthygl ar gyfiethu 'perthnasol' yn berthnasol yn yr un modd:

> What the translation with the word 'relevant' also demonstrates, in an exemplary fashion, is that every translation should be relevant by vocation. It would thus guarantee the *survival* of the body of the original [. . .] in the double sense that Benjamin gives it in 'The Task of the Translator' [. . .] life, continuous life, *living on* but also life after death.
>
> Isn't this what a translation does? Doesn't it guarantee these *two* survivals by losing the flesh during a process of conversion [*change*]? By elevating the signifier to its meaning or value, all the while preserving the mournful and debt-laden memory of the singular body, the first body, the unique body that the translation thus elevates, preserves, and negates [*relève*]?[41]

Dyma a wna *Esther* Saunders Lewis. Wrth addasu, neu gyfieithu, stori o'r naill gyfrwng i'r llall gall sicrhau parhad y testun beiblaidd gwreiddiol (er colli'r cnawd gwreiddiol) a rhoi bywyd newydd iddo. Er i Ioan Williams amddiffyn y ddrama yn erbyn ymosodiad penodol Myra Owen a fynnodd bod cymeriadau Saunders Lewis yn fwy effeithiol o lawer yn ei ddramâu mydryddol nag yn y dramâu rhyddieithol, cyfeddyf bod cynulleidfaoedd Saunders Lewis yn cael ei ddramâu oll yn anodd yn ystod cyfnod ysgrifennu a llwyfannu *Esther*. Yn ogystal â hynny, derbynia, os yn gyndyn, nad oes lle i gyfrif *Esther* ymhlith dramâu mwyaf yr awdur.[42] Eto, hoffwn hawlio bod i *Esther* arwyddocâd arbennig yn hanes y ddrama a dramâu Saunders yn arbennig yn rhinwedd yr hyn a ddywed wrthym am ei ganfyddiad o'r berthynas rhwng perthnasedd a chyfrifoldeb ym maes cyfieithu ac, yn bwysicaf oll, ddylanwad hynny ar ei arferion wrth gyfieithu. Er i Saunders Lewis wrthwynebu cyfeithu *The Pilgrim's Progress* i'r Gymraeg am nad oedd yn gynhenid Gymreig, ni cheisiodd yntau na deunydd na phrofiad Cymreig yn destun wrth addasu stori Esther. Ni cheisiodd ychwaith wneud iawn am hynny, yn null Philip Polack, trwy fanteisio ar ryddid y cyfieithydd i drosglwyddo deunydd a phrofiad o un cyflwr ac o un cyfrwng i'r llall. Er hynny, cyfeiria Saunders Lewis at sefyllfaoedd gwleidyddol cyfoes wrth lunio'r addasiad gan ymyrryd â chyfnod hanesyddol digwydd y ddrama, megis pan frolia Haman am ddifodiant yr Iddewon sy'n dwyn i gof wersyll-oedd difa'r Natsïaid:

> Mae'r gorchymyn wedi mynd allan i gyrrau eithaf yr ymerodraeth. Mae gobaith Abraham wedi diffodd. Mae'r cyfamod tragwyddol wedi ei ddileu. Mae'r Iddewon yn mynd gyda'i gilydd i wersyll-garchar y nos dragwyddol, y nos a benodais i iddyn nhw. Heddiw mae hanes Israel yn cau, trwy benderfyniad a gorchymyn un dyn, fi, Haman yr Agagiad, yr artist mewn gwleidyddiaeth.[43]

Y mae Saunders Lewis hefyd yn gwneud newidiadau i'r testun gwreiddiol a hynny o blaid effeithiolrwydd theatraidd. Er mwyn sicrhau undod profiad ei gynulleidfa, cyflwyna gymeriad Harbona i'r digwydd. I'r un perwyl, gwna'r ymgais ar fywyd y brenin gan Bigthana a Theres, trwy ddichell Haman, yn gymelliant i Mordecai wrthod ymgrymu i Haman feunydd

ym mhorth y palas. Ond diffinia Ioan Williams y prif newid a gyflwyna Saunders Lewis i'r deunydd gwreiddiol wrth iddo droi 'llawer o'r hyn a awgrymir [yn y testun Groegaidd gwreiddiol] am gyflwr meddwl Esther yn ei hargyfwng i gyfeiriad hollol wahanol'.[44] Yn nhestun Saunders Lewis, mae Esther yn caru ei gŵr ac yn esbonio ei hyder wrth fentro erfyn maddeuant ei deyrn-wialen trwy ddweud: 'Calon fy mrenin yw'r unig frenhiniaeth i mi [. . .] Mae cariad yn gryf fel angau [. . .] Mae gwaed gwragedd arwrol yn fy ngwythiennau i.'[45] Cyfeiriwyd eisoes at y modd y cyflwynwyd *Esther* yn 1960 fel 'muthos sy'n trafod problem o bwys parhaol heddiw', sef 'bod Iddewiaeth yn rhan hanfodol o Gristnogaeth, er nad yw pob Iddew yn sant'.[46] Mae yma felly 'genuine universality' chwedl Antoni Turull, a pharhad i'r testun gwreiddiol er iddo ddiosg ei ffurf. Wrth iddo gloi ei ddadl yn 'What is a "relevant" translation?', pwysleisia Derrida:

> I insist on the Christian dimension [. . .] the travail of mourning also describes, through the Passion, through a memory haunted by the body lost yet preserved in its grave, the resurrection of the ghost or of the glorious body that rises, rises again [*se relève*] – and walks.[47]

Ai dyma a wna Saunders Lewis drwy ddewis ffynhonnell i'w chyfieithu a oedd yn amwys, yn amlwynebog, yn Hebraeg ac yn Roegaidd, yn feiblaidd ac yn apocryffaidd, drwy ymatal rhag rhoi gwisg Gymreig amdani ond eto drwy ei mynegi yn gwbl naturiol yn yr iaith Gymraeg? Heb yr un ddyfais i bontio rhwng cymunedau ieithyddol na chenedlaethol mae'n mynnu mynegi gwirionedd penodol, nad yw'n deillio o'r testun gwreiddiol yn benodol ond sy'n wirionedd y gellir ei adnabod yn gyffredinol, ac fe ymddengys, yn dragwyddol. Dyma, gellid dadlau, a oedd gan Ioan Williams mewn golwg wrth ddisgrifo *Esther* fel drama sy'n datgan bod 'amgyffred hanfod cariad yn eich arwain i adnabod yr hyn yw Duw a'i berthynas â dyn'.[48] Oni ddyrchafa *Esther* Saunders Lewis y corff unigol, gwreiddiol drwy broses o ddatgymalu drwy drawsffurfiad ac wedyn ymgnawdoli eilwaith i gyrraedd bywyd parhaol neu fywyd y tu hwnt i farwolaeth? Os felly, mae'n amlwg bod profiad a gweledigaeth y dramodydd wedi newid yn sylfaenol rhwng cyfnod ysgrifennu *Williams Pantycelyn* yn 1927 a chyfnod saernïo *Esther* yn 1958–9. Mae'n bosibl hefyd y gellid

hawlio i Saunders Lewis gyfansoddi cyfeithiad a roddodd gig am esgyrn gweledigaeth ysgytwol Jacques Derrida am gyfieithu fel deinamig parhaus rhwng y posibl a'r amhosibl, yr hunan a'r arall, rhwng cyfyngderau a gogoneddau cyfathrebu dynol, a chyflawni'r hyn na allai Derrida ei hun:

> as someone who, from the very first moment, from his very first attempts (which I could recount to you, as the English saying goes, off the record), shunned the translator's métier, his beautiful and terrifying responsibility, his insolvent duty and debt [. . .] while running up an infinite debt in its service, [and] an admiration of those men and women who, to my mind, are the only ones who know how to read and write – translators.[49]

Aberystwyth *Anwen Jones*

Nodiadau

1 Helena Miguélez-Carballeira, Judith Kaufman ac Angharad Price, 'Introduction: translation in Wales: history, theory and approaches', *Translation Studies*, 9:2 (2016), 126, 134.

2 Doris Bachmann-Medick, 'Introduction: the translational turn', *Translation Studies*, 2:1 (2009), 3.

3 Bachmann-Medick, 'Introduction: the translational turn', 1.

4 Bachmann-Medick, 'Introduction: the translational turn', 1.

5 Michael Cronin, 'Global questions and local visions: a microcosmopolitan perspective', yn Alyce Von Rothkirch a Daniel Williams (goln), *Beyond the Difference* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), t. 187.

6 Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn*, gyda rhagymadrodd newydd gan D. Densil Morgan (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016), t. 23. Cyfieithwyd *The Pilgrim's Progress* i'r Gymraeg gan Stephen Hughes dan y teitl *Taith y Pererin* a'i gyhoeddi yn 1688 gan Richardson yn Llundain. Fe'i golygwyd gan Thomas Jones o'r Amwythig a'i gyhoeddi eilwaith yn 1699. Darparwyd fersiwn arall gogyfer y wasg gan John Rhydderch a gyhoeddwyd unwaith gan Durston, Amwythig yn 1715 ac eilwaith gan yr un wasg yn 1738. Fe'i cyfeithwyd eto gan John Edwards, Glyn Ceriog yn 1740 a'i gyhoeddi gan S. Prys yn 1761.

7 Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 23.

[8] Miguélez-Carballeira, Kaufman a Price, 'Introduction', 128.
[9] Gw. Ioan Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis: Y Casgliad Cyflawn*, cyf. 2 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2000), t. 193.
[10] Dyfynnwyd yn Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*.
[11] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 203.
[12] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 193.
[13] Saunders Lewis, *Esther*, yn Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 221.
[14] Antoni Turull, 'Introduction', yn Salvador Esprui, *Primera Historia d'Esther: The Story of Esther, translated from the Catalan by Philip Polack* (Exeter: The Anglo-Catalan Society, 1989), t. 11.
[15] Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 26.
[16] Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 18.
[17] Lewis, *Williams Pantycelyn*, t. 23.
[18] Rhaid nodi mai sylwadau cychwynnol yw'r rhain yng nghyd-destun y gyfrol yn ei chyfanrwydd a dylid hefyd gydnabod y bu croeso cymysg i weledigaeth y gyfrol gan gyfoeswyr yr awdur a chan feirniaid mwy diweddar hefyd. Gw. D. Densil Morgan, 'Yr ymateb cynnar i astudiaeth Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn*', *Gwerddon*, 24 (2017), 51–65.
[19] Gw. Saunders Lewis, 'Dafydd Nanmor', yn R. Geraint Gruffydd (gol.), *Meistri'r Canrifoedd* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973), t. 80.
[20] Lewis, 'Dafydd Nanmor', t. 81.
[21] Mona Baker, 'Introduction', yn Mona Baker (gol.), *Critical Readings in Translation Studies* (London: Routledge, 2009), t. 1.
[22] Baker, 'Introduction', t. 4.
[23] Cristina Marinetti, 'Cultural approaches', yn L. Van Dooslaer ac Y. Gambier (goln), *Handbook of Translation Studies*, cyf. 2 (Amsterdam: John Benjamin Publishing Co., 2011), t. 26.
[24] Marinetti, 'Cultural approaches', tt. 26–7.
[25] Marinetti, 'Cultural approaches', t. 30.
[26] David Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', *New Literary History*, 39 (2008), 497–517.
[27] Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', 507.
[28] Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', 497.
[29] Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', 507.
[30] Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', 509, 508.
[31] Bleich, 'Globalization, translation, and the university tradition', 509.
[32] Salvador Esprui, *Primera Historia d'Esther: The Story of Esther, translated from the Catalan by Philip Polack* (Exeter: The Anglo-Catalan Society, 1989), t. 12.
[33] Esprui, *Primera Historia d'Esther*, tt. 11–12.
[34] Marinetti, 'Cultural approaches', t. 30.
[35] Turull, 'Introduction', yn Esprui, *Primera Historia d'Esther*, t. 12.

[36] Espuri, *Primera Historia d'Esther*, tt. 27–8.
[37] Espuri, *Primera Historia d'Esther*, tt. 34–5.
[38] Espuri, *Primera Historia d'Esther*, tt. 20−1.
[39] Turull, 'Introduction', t. 11.
[40] Jo Carruthers, 'Writing, interpretation and the Book of Esther: a detour via Browning and Derrida', *The Yearbook of English Studies*, Literature and Religion, 39:1 (2009), 68.
[41] Jacques Derrida, 'What is a "relevant" translation?', *Critical Inquiry*, 27 (Winter 2001), 199.
[42] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 204.
[43] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 218.
[44] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 197.
[45] *Esther*, tt. 239–40.
[46] *Esther*, t. 193.
[47] Derrida, 'What is a "relevant" translation?', 199–200.
[48] Williams (gol.), *Dramâu Saunders Lewis*, t. 203.
[49] Derrida, 'What is a "relevant" translation?', 174.